

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN  
CYMRU**



**MID AND WEST WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**SYLWER: MAE'R COFNODION YMA'N AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN YR  
AWDURDOD TÂN YN EI GYFARFOD NESAF / NOTE: THESE MINUTES ARE SUBJECT TO  
CONFIRMATION BY THE FIRE AUTHORITY AT ITS NEXT MEETING**

**COFNODION  
CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN**

**Ystafell Caer,  
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Caerfyrddin  
10 CHWEFROR 2014**

**MINUTES  
OF THE FIRE AUTHORITY MEETING**

**The Caer Suite,  
Fire and Rescue Service Headquarters, Carmarthen  
10 FEBRUARY 2014**

**11.00 – 13.45**

**80% PRESENOLDEB / ATTENDANCE**

**Presennol yn y Cyfarfod / Present at Meeting:**

**CADEIRYDD / CHAIR:  
DIRPRWY GADEIRYDD / DEPUTY  
CHAIR:**

**R Llewellyn  
G Thomas**

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cyng./Cllrs: D Cole, K W Curry,  
W E Evans, L Frayling, T Hennegan,  
P James, A Lewis, S Paddison,  
R Rees-Evans, P Pritchard, R James,  
W D Thomas, G Walker, A Wilcox,  
D E Williams, J Curtice, J Dudley,  
C Higgins**

**YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:**

**Cyng./Cllrs: G Jones, T Wilcox, C Lloyd**

**YN BRESENNOL / IN ATTENDANCE:**

**R Smith, D Daycock, D Masson, E Aitken,  
R Quin, J Cameron, S McLinden, C  
Jackson, I Banham**

## **1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Rowland Rees-Evans, T Wilcox, C Lloyd a G Jones.

## **2 DATGANIADAU GAN AELODAU O UNRHYW FUDDIANT PERSONOL NEU SY’N RHAGFARNU**

Fe wnaeth yr holl Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan fod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw faterion yn ymwneud â, neu sy’n debygol o effeithio ar, eu Hawdurdod Cyfansoddol nhw.

Fe wnaeth yr holl Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan fod ganddynt fuddiant personol yn yr adroddiadau sy’n ymwneud â’r gyllideb.

Yn ogystal, fe wnaeth y Cyngorydd A Lewis ddatgan buddiant personol mewn materion yn ymwneud â’r gyllideb ac eitemau 14 a 15, oherwydd ei bod yn gweithio i’r Gwasanaeth Tân.

Yn ogystal, fe wnaeth y Cyngorydd P Pritchard ddatgan buddiant personol mewn materion yn ymwneud â’r gyllideb ac eitemau 14 a 15, oherwydd ei bod yn gweithio i’r Gwasanaeth Tân.

Yn ddiweddarach, fe wnaeth y Cyngorydd P James ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag eitem 10, oherwydd ei fod yn perthyn i rywun sy’n gweithio i Barclays Bank Plc.

## **3 CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD / MATERION PERSONOL**

Estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i’r Cyngorydd C Lloyd a oedd wedi cael llawdriniaeth ar y galon yn ddiweddar, ac roedd yr Aelodau’n dymuno estyn eu dymuniadau gorau ar gyfer gwellhad buan.

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu’r Cyngorydd J Dudley i’r cyfarfod, yn dilyn ei habsenoldeb oherwydd damwain ddiweddar. Mynegodd y Cyngorydd Dudley ei diolchgarwch i’r Aelodau am eu consyrn.

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu’r Cyngorydd P Pritchard i’w cyfarfod cyntaf o’r Awdurdod llawn, yn lle’r Cyngorydd K Tampin, fel cynrychiolydd Powys ar yr Awdurdod Tân. Cafwyd cais gan y Cyngorydd P James bod llythyr o werthfawrogiad yn cael ei anfon i’r Cyngorydd Tampin, ar ran yr Awdurdod Tân.

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democraidd, wedi rhoi genedigaeth i ferch fach ar yr 22<sup>ain</sup> o Ionawr 2014, a bod y ddwy’n gwneud yn iawn. Estynnodd yr Aelodau eu llongyfarchiadau i Julie a’i gŵr.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Gwasanaeth wedi ennill Lefel Aur y Safon Iechyd Corfforaethol, ac estynnodd ddiolch i’r Tîm Iechyd Corfforaethol am eu holl ymdrechion.

Cyhoeddodd y Cadeirydd na fyddai Eitem 17 ar yr Agenda'n cael ei thrafod oherwydd nad oedd Mr Gilbert ar gael. Fodd bynnag, gobeithiwyd y byddai cyfle ganddo i fynychu cyfarfod o'r Awdurdod Tân yn y dyfodol agos.

Fe wnaeth y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod er mwyn i'r Aelodau i drafod materion o fewn eu grwpiau plaid wleidyddol. Ni wnaethpwyd hyn cyn dechrau cyfarfod yr Awdurdod Tân oherwydd bod amser yn brin.

#### ***Ailddechreuodd y cyfarfod am 11:25yh***

#### **4. I DDERBYN CYFLWYNIAD GAN MRS IRENE BANHAM AR Y BUDDSODDWYR MEWN POBL**

Fe wnaeth Mrs Irene Banham, Aseswr Annibynnol i'r Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP), gyflwyno ei hasesiad i'r Aelodau. Dywedodd Mrs Banham wrth yr Aelodau fod y Safon Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) yn Safon Cenedlaethol DU, sy'n traethu meincnod o arfer da ar gyfer busnesau. Roedd y safon yn darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwella perfformiad, ac roedd wedi profi ei fod yn helpu i reoli newid, gwella arloesedd a lleihau absenoldeb oherwydd salwch, trosiant staff a chostau recriwtio.

Dyweddodd Mrs Banham ei bod, yn ystod yr asesiad a gyda chymorth y tîm adolygu mewnol, wedi cwrdd â thua 30% o'r holl weithwyr o bob lefel o'r gweithlu, yn cynnwys staff llawn amser, wrth gefn a staff cymorth, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan y Gwasanaeth weledigaeth glir o fod yn sefydliad o Safon Fyd-eang ac, fel rhan o'r broses barhaus, roedd y Gyfarwyddiaeth Ddatblygu wedi derbyn asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP). Mesurwyd y Gyfarwyddiaeth yn llwyddiannus yn erbyn y safon 'Safon Fyd-eang' ym mis Gorffennaf, ac roedd wedi ennill safon Aur. Adroddodd Mrs Banham bod asesiad o'r Gwasanaeth cyfan wedi cael ei gynnal, a bod y Gwasanaeth wedi ennill gwobr Arian.

Diolchodd y Cynghorydd P James i Mrs Banham am ei chyflwyniad ac i'r Swyddogion a fu'n rhan o'r asesiad am eu hymdrechion trwy gydol y broses.

Wrth ddiolch i Mrs Banham, nododd y Prif Swyddog Tân fod Buddsoddwyr mewn Pobl yn achrediad ardderchog ac y dylai'r Gwasanaeth fod yn falch o'i gyflawniadau. Nodwyd mai Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw'r unig Wasanaeth Tân yn y DU, ac yn un o bump Gwasanaeth Brys yn unig yn y DU i gyrraedd Safon Aur.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Banham am ei chyflwyniad a gadawodd Mrs Banham y cyfarfod.

## 5 I GADARNHAU AC ARWYDDO BOD COFNODION CYFARFODYDD YR AWDURDOD TÂN, A GYNHALIWDYD AR Y 9<sup>FED</sup> A'R 16<sup>EG</sup> O RAGFYR 2013 YN GOFNOD CYWIR

### **Cofnodion Cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar y 9<sup>fed</sup> o Ragfyr 2013**

Cadarnhawyd a chymeradwywyd bod cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân, a gynhaliwyd ar y 9<sup>fed</sup> o Ragfyr 2013, yn gofnod cywir.

#### Materion yn Codi

Soniodd y Cynghorydd P James nad yw cofnodion yr Awdurdod Tân a'i Bwyllgorau yn cofnodi enwau'r Cynghorwyr ar hyn o bryd, ac awgrymodd y dylent yn y dyfodol. Roedd y Cynghorydd James yn teimlo fod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau tryloywder, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009.

Dywedodd y Clerc fod yna sawl steil gwahanol ar draws yr Awdurdodau, ac awgrymodd bod y mater hwn yn cael ei osod gerbron y Fforwm Gwasanaethau Democrataidd, lle gellir trafod y broses o gymryd cofnodion yn fanylach.

Cafwyd cais gan y Cynghorydd James bod yr Aelodau'n gwneud penderfyniad yn y cyfarfod hwn, a chynigodd bod cofnodion yn y dyfodol yn cofnodi enwau'r Cynghorwyr unigol, ac eiliwyd y cynnig. Dywedodd y Clerc nad oedd hwn yn benderfyniad ffurfiol ac felly ni ellir ei gynnig, fodd bynnag, roedd yn derbyn y penderfyniad i newid y ffordd mae Cofnodion yn cael eu cofnodi yn y dyfodol.

### **Cofnodion yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar yr 16<sup>eg</sup> o Ragfyr 2013**

Cadarnhawyd a chymeradwywyd bod cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân, a gynhaliwyd ar yr 16<sup>eg</sup> o Ragfyr 2013, yn gofnod cywir, yn amodol i'r canlynol:

Dywedodd y Cynghorydd Paddison bod gwybodaeth wedi cael ei hepgor o gofnodion y cyfarfod ar yr 16<sup>eg</sup> o Ragfyr 2013, mewn perthynas â'r Cynghorydd A Lewis yn codi'r mater o ystyried y system rôl Californian.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau am yr anhawster o gofnodi popeth sy'n cael ei ddweud mewn cyfarfodydd, ac fe wnaeth atgoffa'r Aelodau bod recordiad sain ar gael ar-lein. Dywedodd y Prif Swyddog Tân ei fod yn cofio bod y cais wedi cael ei dynnu'n ôl gan y Cynghorydd Lewis, fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Paddison yn credu y dylai hyn fod wedi cael ei gofnodi yn y cofnodion.

Fe wnaeth y Cynghorydd A Lewis gadarnhau ei bod wedi gofyn am ffigyrau'n ymwneud â'r System Rôl Californian yn y cyfarfod a'i bod wedi cynnig y diwygiad '*i wneud arbedion gan ddefnyddio'r System Rôl Californian*'. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cyngor a dderbyniwyd oddi wrth y Prif Swyddog Tân, roedd hi wedi tynnu'r diwygiad yn ôl oherwydd y ffaith fod y trafodaethau'n parhau. Cafwyd cais gan y Cynghorydd Lewis bod y cofnodion yn cael eu diwygio i adlewyrchu hyn.

Dywedodd y Cynghorydd James, tra y deallwyd na allai'r cofnodion gynnwys cyfarfod yn ei gyfanrwydd, roedd yn ystyried bod elfen bwysig wedi cael ei hepgor a cheisiodd bod y cofnodion yn cynnwys y diwygiad a gynigwyd, ynghyd ag ymateb y Prif Swyddog Tân. Cytunodd y Clerc y byddai'n cyfeirio at y recordiad sain ac y byddai'r diwygiad yn cael ei wneud a'i flaenyrru i'r Aelodau gan hynny.

## **6 I DDERBYN AC YSTYRIED COFNODION Y PWYLLGOR RHEOLI ADNODDAU A GYNHALIWDYD AR YR 20<sup>FED</sup> O IONAWR 2014**

Ystyriwyd a nodwyd cofnodion y Pwyllgor Rheoli Adnoddau, a gynhaliwyd ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014. Nodwyd y diwygiad canlynol:

Tudalen 1, Eitem 4, Paragraff 1 i ddarllen – Derbyniwyd a chadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25<sup>ain</sup> o Dachwedd 2013 yn gofnod cywir.

Tudalen 2, Eitem 6, Paragraff 3, i fewnosod y llythyren 'K' wedi'r ffigyrau rhifiadol i ddarllen, £652K a £483K.

### *Materion yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014*

Cyfeiriodd y Cynghorydd A Lewis at Dudalen 2, Eitem 5, Paragraff 1, a cheisiodd gadarnhad p'un ai byddai'r pris gwerthu o £145K yn cael ei ddychwelyd i'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn. Cyfeiriodd y Cynghorydd Lewis at Dudalen 2, Eitem 6, Paragraff 3 hefyd, a cheisiodd gadarnhad p'un ai byddai'r tanwariant rhagweledig o £483K yn cael ei ddychwelyd i'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau y byddai'r £145K yn dderbyniad cyfalaf o werthu ased cyfalaf ac felly byddai ei angen i ariannu ased cyfalaf, ond i gychwyn byddai'r arian yn cael ei gadw yn y cronfeydd wrth gefn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau y byddai'r tanwariant rhagweledig o £483K yn dychwelyd i'r cronfeydd wrth gefn.

## **7. I DDERBYN AC YSTYRIED COFNODION Y PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU PERFFORMIAD A GYNHALIWDYD AR Y 27<sup>AIN</sup> O IONAWR 2014**

Ystyriwyd a nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad, a gynhaliwyd ar y 27<sup>ain</sup> o Ionawr 2014. Nodwyd y diwygiad canlynol:

Clawr i ddarllen, dydd Llun y 27<sup>ain</sup> o Ionawr 2014.

Tudalen 6, Eitem 10, Paragraff 2 i ddarllen – Dywedodd Ms DeZouche wrth yr Aelodau, oherwydd y ffaith nad oedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cwblhau'r canfyddiadau mewn perthynas â phryderon yr etholaeth eto, a allai effeithio ar y casgliad Gwerth am Arian, ni ellir ardystio bod yr Archwiliad wedi dod i ben. Unwaith fyddai'r canfyddiadau wedi cael eu reportio, trwy gyfrwng yr Adroddiad Gwella Blynyddol, byddai Llythyr Archwilio Blynyddol diweddaredig yn cael ei gyhoeddi.

### Materion yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27<sup>ain</sup> o Ionawr 2014

Cyfeiriodd y Cynghorydd P James at Dudalen 1, Eitem 4 o'r cofnodion, a dywedodd bod y cwestiwn am ba hyd fyddai'r archwiliad ychwanegol yn parhau, oherwydd bod y gost yn £10,600 flwyddyn yn ôl, wedi cael ei holi i Lisa Williams o Swyddfa Archwilio Cymru, yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad. Cafwyd cais gan y Cynghorydd James am y diweddaraf ar gynnydd yr archwiliad ychwanegol a holodd pryd fyddai'r adroddiad ar gael.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau ei fod wedi cwrdd yn ddiweddar gyda Jane Halownia, mewn perthynas â'r mater hwn yn arbennig, lle'r adroddwyd y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn reportio eu canfyddiadau trwy gyfrwng y broses reportio Gwella Blynyddol, a fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer yr Aelodau. Nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi defnyddio mwy o ddyddiau nag y cyfrifwyd amdanynt yn wreiddiol, ac roedd yn fater i'r Archwilydd Cyffredinol i benderfynu ar unrhyw ffioedd pellach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd James at Dudalen 7, Eitem 11, a dywedodd wrth yr Aelodau fod y mater hwn wedi cael ei godi oherwydd teimlwyd y dylai'r Aelodau fod yn medru 'archwilio'r archwilwyr', er mwyn sicrhau gwerth am arian. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau bod Jane Halownia a Lisa Williams yn ystyried y mater hwn, a gobeithiwyd y byddai dadansoddiad o wasanaethau'n cael ei ddarparu yn y dyfodol.

Tynnodd y Cynghorydd G Walker sylw'r Aelodau at Dudalen 5, Eitem 8, a oedd yn cyfeirio at yr Uned Tanau Bach a leolir yng Ngorsaf Dân Y Sgeti ar hyn o bryd ac, fel yr oedd yn deall, roedd yn cael ei chyflenwi o bryd i'w gilydd gan griwiau o Hwlfordd a Doc Penfro. Dywedodd y Cynghorydd Walker, yn ei farn ef, nid oedd angen gwneud hyn a bod personél o Orsaf Dân Y Sgeti yn medru criwio'r Uned Tanau Bach heb gymorth gorsafoedd eraill.

Ymatebodd y Prif Swyddog Tân trwy ddweud nad oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad ar y 27<sup>ain</sup> o Ionawr 2014, fodd bynnag, bod adroddiad cynhwysfawr wedi cael ei ddarparu yn y cyfarfod hwnnw. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorydd Walker os oedd yn dymuno trafod y mater eto y dylid gwneud hynny yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad.

## **8. I DDERBYN AC YSTYRIED CYNLLUN GWELLA BLYNYDDOL 2014/15**

Adroddodd y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod wedi cymeradwyo ei Gynllun Gwella Blynyddol Drafft ar gyfer ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar y 23<sup>ain</sup> o Fedi 2013, lle'r oedd yr Aelodau wedi cyfarwyddo Gweithgor Gwella Blynyddol i weithio gyda Swyddogion i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac i baratoi Cynllun Gwella Blynyddol terfynol 2014/15.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Atodiad 1 i Gynllun Gwella Blynyddol 2014/15 ac Atodiad 2 i'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad. Adroddodd y Prif Swyddog Tân fod proses

ymgyngori o 10 wythnos wedi cael ei chynnal, gyda chyfanswm o 88 o randdeiliaid yn cael mynediad at yr ymgynghoriad, er nad oedd 24% o'r ymatebion yn darparu sylwadau ar unrhyw un o'r amcanion gwella, gan adael 67 o ymatebion i'w hystyried.

Roedd y Gweithgor Gwella Blynyddol wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd wedi gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau i'r Cynllun terfynol ac roedd yr argymhellion a'r sylwadau yma wedi cael eu cynnwys yn yr Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Blynyddol Drafft 2014-15.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Grŵp S McLinden, Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad, a'r staff am eu gwaith caled mewn perthynas â'r cynllun a'r ymgynghoriad.

Holodd y Cynghorydd C Higgins ynglŷn â'r ymatebion a wrthodwyd. Dywedodd y Rheolwr Grŵp S McLinden bod 24% o randdeiliaid wedi cyrchu'r holiadur ar-lein ond na wnaethant ddarparu ymateb. Fodd bynnag, cafodd yr ymatebion a dderbyniwyd eu grwpio a'u categoraiddio, er mwyn casglu sylwadau a oedd yn berthnasol i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Blynyddol 2014/15.

Dywedodd y Cynghorydd T Hennegan wrth yr Aelodau y byddai'r Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn cael ei Chraffu ar yr 11<sup>eg</sup> o Chwefror 2014 ac y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn hefyd.

Mynegodd y Cynghorydd P James a'r Cynghorydd A Lewis eu siom mewn perthynas â'r nifer fach o ymatebion i'r Ymgynghoriad, a gobeithiwyd y byddai cyfranogiad y cyhoedd yn fwy ar gyfer yr ymgynghoriad y flwyddyn nesaf.

Fe wnaeth y Cynghorydd T Hennegan atgoffa'r Aelodau bod Swyddogion wedi cyflwyno i gyfarfodydd Cyngor llawn ledled Ardal y Gwasanaeth, fel rhan o'r broses ymgynghori.

## **PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD bod yr Awdurdod Tân yn cytuno i argymhelliad Gweithgor yr Aelodau a chymeradwywyd Cynllun Gwella Blynyddol 2014-2015.***

### **9. I DDERBYN DIWEDDARIAD LLAFAR AR ADRODDIAD COMISIWN WILLIAMS**

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân (PST) grynodedb i'r Aelodau o adroddiad Comisiwn Williams, a dywedodd y byddai gan yr adroddiad oblygiadau helaeth i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Pwysleisiodd y PST wrth yr Aelodau bod cymhlethdod llywodraeth leol mewn perthynas ag atebolrwydd, dulliau reportio, mecanweithiau polisi, ffiniau strwythurol a swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn gymwys i Wasanaethau Tân ac Achub yn gymaint ag y maent i Awdurdodau Lleol.

Adroddodd y PST ei fod wedi crybwyll mater gyda'r Comisiwn mewn perthynas â ffiniau rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd y mater yn ymwneud yn benodol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn rhan o ardal Bwrdd Iechyd

Abertawe Bro Morgannwg, ond nid oedd yn rhan o ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod un o argymhellion yr Adroddiad yn datgan fod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr neu fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnwys Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac y byddai achos busnes yn cael ei ddatblygu i edrych ar y ddau opsiwn.

Yng ngoleuni'r uchod, pwysleisiodd y PST wrth yr Aelodau fod yr Adroddiad yn argymhell y dylai fod yna synergeddau swyddogaethol a gweithredol cadarn *rhwng* Gwasanaethau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru erbyn diwedd 2014, gyda chynllun clir ar gyfer cyd-drefnu ac alinio strategol a gweithredol, yn cynnwys cynigion i rannu adeiladau, cyd-drefnu ymatebion i ddigwyddiadau sy'n galw am bresenoldeb y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans, yn cael ei baratoi. Nododd yr Aelodau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei ystyried yn enghraifft o arder da, oherwydd y gwaith atal tân helaeth a wnaed, ac roedd y Prif Swyddog Tân o'r farn fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad.

Yng ngoleuni Adroddiad Williams a'r pwyslais ar ffiniau, holodd y Cynghorydd A Lewis p'un ai byddai'n briodol i barhau i adolygu'r Ardal Reoli a'r patrymau sifftiau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ymatebodd y PST trwy ddweud fod proses fel hyn yn medru cymryd blynyddoedd i'w rhoi ar waith a'i bod yn briodol bod yr adolygiad yn parhau, yn enwedig gan fod yr arbedion ar gyfer y flwyddyn nesaf yn dibynnu ar y newidiadau yma.

Holodd y Cynghorydd P James p'un ai bod yr undebau'n rhan o'r broses ymgynghori ar Adroddiad Williams. Ymatebodd y PST trwy ddweud bod Undeb y Brigadau Tân wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gyfer y Comisiwn. Ychwanegodd y Cynghorydd James bod Swydd Lincoln yn rhoi cangen fasnachu ar waith gydag effaith o Ebrill y 1<sup>af</sup> 2014, a holodd a oedd posibilrwydd o ystyried hyn o fewn y Gwasanaeth. Dywedodd y Prif Swyddog Tân y byddai'n benderfyniad gwleidyddol, a ddylai gael ei wneud gan y tri Awdurdod Tân ac Achub ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, mewn ymgais i gyd-drefnu ac alinio'r ymateb gweithredol strategol.

## **PENDERFYNIAD**

### ***PENDERFYNWYD***

***Bod yr Aelodau'n nodi goblygiadau Adroddiad Comisiwn Williams ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y dyfodol.***

## **10. I DDERBYN POLISI A STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2014/15**

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau bod yr adroddiad hwn wedi cael ei argymhell i'r Aelodau gan y Pwyllgor Rheoli Adnoddau a, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub i gymeradwyo ei Bolisi a'i Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn honno.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau amlinellu Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys 2014/15 ac aeth ymlaen i ddisgrifio lefelau chwyddiant o gymharu â



thargedau'r llywodraeth, ac i amlinellu lefelau diweithdra, a oedd yn ffurfio rhan o'r cefndir economaidd ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â chyfraddau sylfaenol. Rhagwelwyd byddai cyfraddau sylfaenol yn aros yr un fath nes Medi 2014, er bod peth potensial ar gyfer newid i'r rhagfynegiad hwn eisoes. Pe byddai'r sefyllfa'n newid yna byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau.

Aeth y Cyfarwyddwr trwy'r Strategaeth benthycu a buddsoddi sy'n arfaethedig, gan bwysleisio natur risg isel unrhyw fuddsoddiadau trwy gyrrff y llywodraeth neu asiantaethau credyd uchel.

Nodwyd mai Barclays Bank Plc oedd bancwyr yr Awdurdod ar hyn o bryd ac nad oedd yr Awdurdod yn talu unrhyw ffioedd bancio ond, o ganlyniad, roedd yn gyfyngedig o ran cyfleoedd i fuddsoddi. Fodd bynnag, roedd yn parhau i ddarparu gwerth da am arian.

Fe wnaeth y Cynghorydd P James ddatgan fod ganddo fuddiant personol oherwydd fod ei fab yn gweithio i Barclays Capital.

## **PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD bod yr Awdurdod Tân, ar argymhelliad y Pwyllgor Rheoli Adnoddau yn ei gyfarfod ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014, yn cymeradwyo Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2014/15.***

### **11. I DDERBYN Y DATGANIAD POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2014/15**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014, lle cafodd ei argymhell i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.

Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod i neilltuo arian o'r cyfrif refeniw bob blwyddyn i gwrdd â rhwymedigaethau yn y dyfodol, er mwyn ad-dalu prif elfen benthyciadau lesau cyllid. Galwyd y swm a neilltuwyd yn Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) a thrwy Reoliad, roedd yn rhaid i'r Awdurdod i gymeradwyo polisi ar y dull cyfrif cyn dechrau'r flwyddyn lle byddai'r dull yn cael ei gymhwyso. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod y dull a argymhellwyd yr un fath ag yn 2013/14, a oedd yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau bod y goblygiadau ariannol yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf a'r Rhaglen Amnewid Cerbydau ac, os fyddai'r dulliau cyfrif arfaethedig yn cael eu mabwysiadu, byddai'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) ar gyfer 2014/15 yn:

DIR wedi'i gyfrif trwy Ddull Rheoleiddio	£ 269,274
DIR wedi'i gyfrif trwy Ddull Oes Asedau a ariennir gan fenthyciad	£1,371,857
DIR wedi'i gyfrif trwy Ddull Oes Asedau a ariennir gan les cyllid	£ 865,540

Cyfanswm £2,506,671

Dywedodd y Cynghorydd A Lewis, mewn perthynas â'r rhaglen amnewid cerbydau, y deallwyd bod angen amnewid llawer o fflyd y Gwasanaeth, a holodd sut fyddai hyn yn effeithio ar eu hoes ddisgwyliedig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau fod pob un o'r cerbydau'n cael eu hasesu ar sail unigol.

## **PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD, ar argymhelliad y Pwyllgor Rheoli Adnoddau yn ei gyfarfod ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014, bod yr Awdurdod Tân yn mabwysiadu'r dulliau cyfrif Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer y flwyddyn 2014/15:***

- 1) Y "Dull Rheoleiddio" ar gyfer gwariant a gafwyd cyn neu ar yr 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2009.***
- 2) Y "Dull Oes Asedau gyda Rhandaliadau Cyfartal" ar gyfer gwariant ar neu wedi'r 1<sup>af</sup> o Ebrill 2009, gyda'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn cael ei godi am y tro cyntaf yn y flwyddyn wedi i'r ased ddod i ddefnydd pan ei fod yn cael ei ariannu gan fenthyciad, neu yn yr un flwyddyn â'r taliad rhent les cyntaf os caiff ei ariannu gan les cyllid.***

## **12. I DDERBYN ADRODDIAD Y TRYSORYDD AR Y CÔD DARBODUS A'R DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2014/15**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014, lle cafodd ei argymhell i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân.

Oddi fewn i'r Rhaglen Gyfalaf roedd gofyn i'r Awdurdod i brofi bod:

- Y Cynlluniau Cyfalaf yn fforddiadwy;
- Bod yr holl fenthycia allanol a rhwymedigaethau tymor hir eraill oddi fewn i lefelau darbodus a chynaliadwy.
- Bod penderfyniadau rheoli'r trysorlys yn cael eu gwneud yn unol ag arfer da.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau bod y Côt Darbodus yn galluogi'r Awdurdod Tân a'r Cynghorau Sir i fenthycia hyd at y lefel yr oeddent yn ei ystyried yn ddoeth. Roedd y Dangosyddion Darbodus yn ddull o arddangos hyn i'r Aelodau a'r cyhoedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau nad oedd yr Awdurdod wedi cael unrhyw anhawster wrth gwrdd â'r gofynion benthycia net ac ariannu cyfalaf yn 2012/13, ac na rhagwelwyd unrhyw anawsterau yn y flwyddyn bresennol na'r dyfodol.

## **PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD, ar argymhelliad y Pwyllgor Rheoli Adnoddau yn ei gyfarfod ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014, bod yr Awdurdod:***

- 1) Yn cymeradwyo Dangosyddion Darbodus 2014/15, a amlinellwyd yn***

## ***Atodiad 2 i'r adroddiad sy'n amgaeëdig***

- 2) Yn rhoi awdurdod dirprwyol i'r Cyfarwyddwr Adnoddau i newid y cydbwysedd rhwng benthyca a rhwymedigaethau tymor hir eraill o fewn y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol ac oddi fewn i'r Ffin Weithredol, tra'n cadw o fewn y terfynau cyffredinol ar yr un pryd.***

### **13. I DDERBYN CYD-ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG TÂN A'R CYFARWYDDWR ADNODDAU AR OFYNION Y GYLLIDEB AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2014/2015**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wrth yr Aelodau, yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllun Cyfuno, cafodd amcangyfrif o'i dreuliau net ar gyfer y flwyddyn ddilynol ei gyflwyno i bob un o'r Awdurdodau Unedol Cyfansoddol, a bod sylwadau ar y gyllideb net ar gyfer 2014/15 wedi cael eu ceisio oddi wrth yr Awdurdodau Cyfansoddol erbyn yr 28<sup>ain</sup> o Ionawr 2014. Dim ond un ymateb oedd wedi dod i law, oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion, a oedd yn mynegi siomedigaeth gyda'r gostyngiad arfaethedig yn gyffredinol, er bod Prif Weithredwr y Cyngor wedi nodi a derbyn y cynigion ac roedd yn gobeithio byddai gostyngiadau pellach yn cael eu nodi yn 2015/16.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Atodiad A, a oedd yn dangos saernïaeth y gyllideb fel y cytunwyd gan yr Aelodau, a phwysleisiwyd hefyd bod y costau ariannu cyfalaf wedi gostwng gan £50,000 (linell 5) fel y ceisiwyd gan yr Aelodau. Manylwyd ynghylch yr arbedion effeithlonrwydd o -£1,225,000 yn Atodiad C, a chawsant eu hesbonio ymhellach yn yr Atodiad E newydd. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y Strwythur Staff Cymorth yn arbennig, lle gwnaethpwyd cynnydd da, a hefyd at y cynigion i Adolygu'r Uwch Reolwyr, a oedd yn amlinellu y byddai'r adolygiad o'r swyddi uwch reolwyr yn cael ei gynnal yn y Pencadlysoedd a'r Ardaloedd Rheoli, yn enwedig rheolwyr ar y lefelau uchaf yn Ardaloedd Rheoli Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Atodiad B, a oedd yn cynnwys y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig. Tynnwyd sylw'r Aelodau at dri newid, sef:

- Bod gwerth £300k o'r mân waith yn cael ei ohirio am flwyddyn,
- Bod gwerth £700k o'r gwaith uwchraddio gorsafoedd ar gyfer 2 flynedd yn cael ei ohirio am flwyddyn,
- Bod y Pwyllgor Rheoli Adnoddau a gymeradwyodd gwerthu hen orsaf dân Llandrindod wedi arbed arian hefyd (£160k yn y rhaglen gyfalaf flaenorol) ac felly byddai'n darparu derbyniad cyfalaf, gan ddarparu cyfanswm effaith gadarnhaol o £300K.

Roedd Atodiad D wedi aros yr un fath, heb unrhyw newidiadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd A Lewis at adolygiad o'r ddarpariaeth cludiant ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, a oedd yn cael ei gynnal fel rhan o flaenraglen waith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, a holodd pryd y rhagwelwyd y byddai'r adolygiad yn dod i ben. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'n dod i ben ymhen 2 fis.

Yn ail, ceisiodd y Cynghorydd A Lewis esboniad ar dudalen 7, a oedd yn datgan, er mwyn cyflawni gostyngiad o -1.56% ar yr Awdurdodau Cyfansoddol, a gyda'r defnydd o with £605,000 o'r cronfeydd wrth gefn, byddai'n rhaid cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £1,225,000. Fodd bynnag, deallwyd, ar y gyfradd gostwng yna, byddai'n rhaid i'r Aelodau i ddod o hyd i £1.7 miliwn. Holodd y Cynghorydd Lewis a oedd y cyfrif yn dod i gyfanswm o £1.83 miliwn mewn gwirionedd.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod £1.7 miliwn mewn arbedion yn cynrychioli'r gostyngiad oedd ei angen pan fod £180K yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn, gan arwain at gyfanswm o £1.88 miliwn. Pe byddai'r arbedion ychwanegol o £50k mewn ffioedd ariannu cyfalaf, (a ddangoswyd ar wahân yn Atodiad A), yn cael ei ychwanegu at y £1.83 miliwn, yna byddai'r cyfanswm yr un fath, h.y. £1.88 miliwn.

Cynigodd y Cynghorydd A Lewis ddiwygiad, ac eiliwyd ef, fel a ganlyn:

Bod Atodiad E yn cael ei aileirio i ddatgan: *“Bydd adolygiad sylfaenol o'r swyddi Uwch Reolwyr a'r lefelau uchaf o reolwyr yn y 6 Ardal Reoli a'r Pencadlysoedd yn cael ei gynnal yn ystod 2014/15”.*

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau na fyddai'r geiriad gwreiddiol yn Atodiad E wedi atal adolygiad o'r Ardaloedd Rheoli eraill, a dywedodd y byddai'r adolygiad wedi cynnwys pob un o'r Ardaloedd Rheoli. Ychwanegodd y PST bod y diwygiad yn ddiangen a sicrhodd yr Aelodau y byddai'r adolygiad yn cynnwys yr holl strwythurau ar draws y sefydliad cyfan.

Yng ngoleuni hyn, tynnodd y Cynghorydd A Lewis y diwygiad yn ôl, oherwydd byddai esboniad y PST yn cael ei gynnwys yn y cofnodion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J Dudley at dudalen 9, paragraff olaf yr adroddiad, a chafwyd cais ganddo y dylai'r cyfeiriad at Fae Abertawe gyfeirio hefyd at Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe, oherwydd nad yw'r cyhoedd bob amser yn cydnabod fod Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Fae Abertawe.

Holodd y Cynghorydd P James pam fod Ceir a Faniau Ardaloedd Rheoli a Cheir Ymateb wedi cael eu rhestru ar wahân yn Atodiad D. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau bod y rhain yn ddau wahanol adnodd, oherwydd bod Ceir a Faniau'r Ardaloedd Rheoli yn cael eu darparu ar gyfer y chwe Ardal Reoli ar gyfer gwaith beunyddiol cyffredinol, megis dyletswyddau datgysylltiedig a symud personél, tra bod Ceir Ymateb yn cael eu darparu ar gyfer Swyddogion er mwyn ymateb i ddigwyddiadau.

Ceisiodd y Cynghorydd K Curry esboniad mewn perthynas â hen orsaf dân Llandrindod, a dywedodd ei fod ef yn deall bod £160K wedi cael ei drefnu ar gyfer gwaith atgyweirio a'i fod nawr yn wariant angenrheidiol. Esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau mai un o'r opsiynau oedd trawsnewid yr adeilad i fod yn weithdy cynnal a chadw cerbydau, fodd bynnag, ystyriwyd bod yr opsiwn hwn yn rhy gostus ac felly penderfynwyd gwerthu'r adeilad.

## PENDERFYNIAD

### **PENDERFYNWDYD cymeradwyo'r canlynol:-**

- 1. Ar gyfer 2014/15, bod cyllideb net o £43,522,194 (gostyngiad o -0.81% tebyg am debyg) yn cael ei chymeradwyo (amlinellwyd yn Atodiad A i'r adroddiad).**
- 2. Bod y gyllideb o £43,522,194 ar gyfer 2014/15 yn cael ei rhan-ariannu gan £605k o'r cronfeydd wrth gefn.**
- 3. Bod gofyn i'r Awdurdodau Cyfansoddol i gyfrannu'r balans o £42,917,194 fel eu cyfraniad nhw ar gyfer y flwyddyn 2014/15 (gostyngiad arian parod o -1.56%).**
- 4. Bod y Rhaglen Gyfalaf sy'n amgaeëdig fel Atodiad B i'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo, gan arwain at y ffioedd ariannu cyfalaf a ddangosir i fod yn ychwanegol yn Atodiad A i'r adroddiad.**
- 5. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r arbedion effeithlonrwydd a amlinellwyd yn Atodiad C ac a esboniwyd ymhellach yn Atodiad E i'r adroddiad.**
- 6. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Rhaglen Amnewid Cerbydau sy'n amgaeëdig fel Atodiad D i'r adroddiad.**
- 7. Tra tybiwyd bydd mwyafrif y cerbydau'n cael eu prydlesu yn saernïaeth y gyllideb, dylid awdurdodi'r Cyfarwyddwr Adnoddau i benderfynu ar y dull priodol o ariannu cerbydau (trwy brydles neu fel arall) ar adeg eu caffael.**

#### **14. I DDERBYN ADRODDIAD AR Y GYLLIDEB REFENIW FANWL AR GYFER 2014/15**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau yr adroddiad ar y gyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2014/15 i'r Aelodau, wedi iddo gael ei argymhell gan y Pwyllgor Rheoli Adnoddau (Atodiad 1).

Pwysleisiodd y Cynghorydd P James wrth yr aelodau, bod y llinell sy'n ymwneud ag Aelodau Etholedig yn Atodiad 1 yn datgan 0 (sero) ac y dylai'r ffigyrau adlewyrchu'r gwariant ar gyfer Aelodau etholedig, er dibenion tryloywder. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Clerc gadarnhau y byddai hyn yn cael ei ddiweddarau a'i ail-lwytho i fyny ar y wefan er gwybodaeth.

## PENDERFYNIAD

**PENDERFYNWDYD, ar argymelliad y Pwyllgor Rheoli Adnoddau yn ei gyfarfod ar yr 20<sup>fed</sup> o Ionawr 2014, bod yr Awdurdod Tân yn cymeradwyo'r gyllideb refeniw fanwl sy'n amgaeëdig fel Atodiad 1 i'r adroddiad.**

## 15. I DDERBYN ADRODDIAD AR DDATGANIAD POLISI CYFLOGAU 2014/15

Cyflwynodd y Clerc / Swyddog Monitro Ddatganiad Polisi Cyflogau 2014/15 a dywedodd bod yr Aelodau'n ymwybodol ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau perthnasol, yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, i baratoi datganiadau polisi cyflogaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol, i gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân a'u cyhoeddi erbyn yr 31<sup>ain</sup> o Fawrth bob blwyddyn.

Tynnodd y Clerc sylw at y ddau brif newid, yn ymwneud yn benodol â chydabyddiaeth ariannol y Prif Swyddog Tân, a oedd yn gofyn bod unrhyw newidiadau arwyddocaol i gydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddog yn cael eu gwneud wedi ymgynghori gyda Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn ogystal, nodwyd pe byddai unrhyw becynnau diswyddo neu setliad ar gyfer y Prif Swyddog Tân sydd dros £100,000, yna byddai'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân llawn i ystyried y mater.

### PENDERFYNIAD

***PENDERFYNWYD bod Datganiad Polisi Cyflogau 2014/15 yn cael ei gymeradwyo***

## 16. I DDERBYN ADRODDIAD AR DDEDDF PENSIYNAU'R GWASANAETH CYHOEDDUS 2013

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau yr adroddiad ar Bensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Roedd Deddf Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn datgan y byddai Awdurdodau Tân ac Achub unigol yn gyfrifol am lywodraethu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015, ac roedd Adran 4 o'r Ddeddf yn cadarnhau y byddai pob Awdurdod Tân ac Achub yn dod yn Rheolwr Cynllun, gyda chyfrifoldeb dros weinyddu'r cynllun. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau dynnu sylw'r Aelodau at y swyddogaethau byddai gofyn i Reolwr Cynllun i ymgymryd â nhw.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau, yn ogystal â'r Rheolwyr Cynllun, byddai gofyn i bob Awdurdod Tân ac Achub i sefydlu Byrddau Pensiwn Lleol (naill ai'n unigol neu ar y cyd), a fyddai'n cynorthwyo'r Rheolwr Cynllun i sicrhau bod pob un o'r cynlluniau'n cael eu gweinyddu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd i'r cynllun gan y Rheolydd Pensiynau.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Adnoddau at y Côt Ymarfer Drafft, rhif 14 Llywodraethu a Gweinyddu Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus. Yng ngoleuni'r gofynion, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai yna elfen o gyfrifoldeb ar y Bwrdd Pensiynau, a goblygiadau ariannol o sefydlu'r Bwrdd a mynychu cyfarfodydd.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd A Lewis, ymatebodd y Cyfarwyddwr Adnoddau mai'r Rheolwr Cynllun fyddai'r Awdurdod Tân ac nad oedd manylion pellach wedi cael eu cytuno eto. Fodd bynnag, roedd Bwrdd Llywodraethu peilot ledled Cymru wedi cael ei sefydlu, ac roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau'n aelod ohono

ar hyn o bryd, a byddai hyfforddiant yn cael ei roddi i'r Aelodau yn ei dro.

## **PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** bod yr Awdurdod Tân yn nodi'r adroddiad diweddar ar ofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

**17. I DDERBYN CYFLWYNIAD GAN MIKE GILBERT, YSBYTY BRONGLAIS AR LARYMAU TÂN AWTOMATIG (AFA)**

Nodwyd fod Mr Gilbert wedi anfon ei ymddiheuriadau ac, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, nid oedd yn medru cyflwyno i'r Aelodau yn y cyfarfod.

**18. UNRHYW EITEMAU ARALL O FUSNES Y MAE'R CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN PENDERFYNU Y DYLLID EU HYSTYRIED FEL MATER O FRYS YN UNOL AG ADRAN 100(B)(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Doedd dim eitemau o fusnes brys i'w trafod.

**19. CYTUNWYD, YN UNOL AG ADRAN 100A (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, BOD Y WASG A'R CYHOEDD YN CAEL EU HEITHRIO O'R CYFARFOD OHERWYDD, PE BYDDENT YN BRESENNOL, MAE'N DEBYGOL Y BYDDAI GWYBODAETH EITHRIEDIG YN CAEL EI DDATGELU IDDYNT ODDI FEWN I DDISGRIFIAD ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, PARAGRAFF 14, SEF GWYBODAETH YN YMWNEUD Â MATERION ARIANNOL NEU FUSNES UNRHYW BERSON PENODOL (YN CYNWYS YR AWDURDOD SY'N MEDDU AR YR WYBODAETH HYNNY), A'I FOD ER LLES Y CYHOEDD I WNEUD HYNNY.**

**20. I DDERBYN ADRODDIAD AR ASTUDIAETH DICHONOLRWYDD Y GANOLFAN REOLI TÂN**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân (PST) yr Astudiaeth Dichonolrwydd ar y Ganolfan Reoli Tân, a dywedodd fod y Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi cwblhau astudiaeth dichonolrwydd ar y mater hwn yn ddiweddar. Dywedwyd wrth yr Aelodau am effaith bosib yr astudiaeth ar y Gwasanaeth Tân.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cynnig Buddsoddi i Arbed, heb ragfarn, wedi cael ei gyflwyno er mwyn ariannu'r buddsoddiad a draethwyd yn yr astudiaeth dichonolrwydd.

Fe wnaeth nifer o Aelodau fynegi'r farn na fyddai unrhyw benderfyniad cadarn yn cael ei wneud nes cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân.

## **PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD:-***

1. ***Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, ac yn enwedig gyda'r ffrwd gwaith Canolfan Reoli Tân.***
2. ***Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'u bod yn cytuno i fwrw ymlaen gyda'r cynnig Buddsoddi i Arbed, ac i ganiatáu i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd i adolygu'r mecanwaith ariannu mewnol ar gyfer ad-dalu unrhyw fenthyciad Buddsoddi i Arbed.***
3. ***Bod yr Aelodau'n gofyn i'r Prif Swyddog Tân i adolygu opsiynau ariannu amgen, rhag ofn bydd y cynnig Buddsoddi i Arbed yn aflwyddiannus.***
4. ***Os bydd y prosiect yn bwrw ymlaen, bod arbedion y prosiect a amlinellwyd yn y cynnig, yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod.***
5. ***Bod y mater yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân.***

**21. I DDERBYN ADRODDIAD AR WERTHU HEN BENCADLYS ARDAL REOLI SIROL ABERTAWA AR HEOL SWAY, TREFORYS.**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau bod cynnig wedi cael ei wneud ar y safle yn Nhreforys, yn amodol ar ganiatâd cynllunio i newid defnydd, a bod y cynnig wedi cael ei dderbyn.

Dywedwyd wrth yr Awdurdod am ddarpariaeth y Cyfansoddiad sy'n rheoleiddio gwaredu Asedau'r Awdurdod.

**PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD bod camau gweithredu'r Swyddogion yn cael eu nodi.***

**22. I DDERBYN DIWEDDARIAD LLAFAR AR FATERION YN YMWNEUD Â CHYFRAITH CYFLOGAETH**

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân (PST) ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar faterion yn ymwneud â chyfraith cyflogaeth, yn cynnwys trosolwg o'r sefyllfa bresennol o fewn y Gwasanaeth.

**PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD bod y diweddariad llafar yn cael ei nodi.***

Daeth y cyfarfod i ben am 13:45.